



CYNLLUN BUSNES 2022-23



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Contents

1. Cyflwyniad	2
2. Ein blaenoriaethau	3
3. Cynllunio gweithredol 2022-23	5
3.1. Blaenoriaeth weithredol 1: Adolygu.....	7
3.2. Blaenoriaeth weithredol 2: Diwygio	10
3.3. Blaenoriaeth weithredol 3: Rheoleiddio	12
3.4. Blaenoriaeth weithredol 4: Adnoddau – gallu corfforaethol.....	14
3.5. Blaenoriaeth weithredol 5: Cyrhaeddiad – cysylltu, ymgysylltu a chyfathrebu'n effeithiol â'n cynulleidfaoedd	16

1. Cyflwyniad

Cymwysterau Cymru yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, Bagloriaeth Cymru, a chymwysterau galwedigaethol a thechnegol. Ein pwrpas yw cynnal hyder bod y cymwysterau rydyn ni'n eu rheoleiddio yn deg, y gellir ymddiried ynddyn nhw a'u bod yn werthfawr yng Nghymru a thu hwnt.

Mae gennym ni **ddau brif nod**:

- *Sicrhau bod cymwysterau - a system gymwysterau Cymru - yn effeithiol ar gyfer diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru*
- *Hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.*

Rydyn ni'n gwneud hyn drwy:

- roi dysgwyr wrth wraidd ein gweithgareddau a gweithio er eu lles nhw
- gosod rheolau i gyrff dyfarnu ddarparu cymwysterau sy'n adlewyrchu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth dysgwyr yn gywir
- llunio ystod a chynllun y cymwysterau y gellir eu hariannu gan Lywodraeth Cymru a sicrhau eu bod ar gael i ddiwallu anghenion dysgwyr.
- gweithio'n agos gyda'r gymuned addysg ehangach
- cynnwys pobl a sefydliadau Cymru yn ein gwaith

Rydyn ni'n edrych tuag allan, felly rydyn ni'n ymgysylltu, yn cyfathrebu ac yn cydweithio i gryfhau ein dealltwriaeth a'n gallu i wella cymwysterau er mwyn diwallu anghenion dysgwyr yn well. Mae ein rôl yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; mae ei diben a'i gofynion yn gydnaws â sut rydyn ni'n gweithio, gan fod addysg o reidrydd yn gofyn am olwg hirdymor gyda lles dysgwyr yn ganolog iddo.

Mae pandemig Covid wedi cael effaith sylweddol ar weithgarwch y system addysg gyfan. Mewn ymateb, rydyn ni wedi gorfod archwilio a mabwysiadu dulliau o ddyfarnu cymwysterau na welwyd o'r blaen. Wrth i Gymru ddechrau adfer, ein blaenoriaeth yw cefnogi dysgwyr i gael graddau teg a chywir sy'n adlewyrchu eu cyrhaeddiad ac yn caniatáu iddyn nhw symud ymlaen i gyflogaeth neu i gam nesaf eu haddysg.

Mae'r Cynllun Busnes hwn yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23, gan gydnabod y byddwn ni'n parhau i ymateb ac addasu i anghenion dysgwyr yn ôl yr angen. Mae'r cynllun yn cynnwys y camau rydyn ni'n bwriadu eu cymryd i ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol.

Yn ystod y flwyddyn byddwn ni'n cyhoeddi ein gweledigaeth hirdymor a'n cynllun 5 mlynedd ar gyfer cymwysterau a'r system gymwysterau.

2. Ein blaenoriaethau

Mae addysg a'r system gymwysterau yn parhau i fod o ddiddordeb mawr yn wleidyddol ac yn gyhoeddus. Mae 2022-23 yn nodi dychwelyd i arholiadau.

Rheoleiddio: Yn haf 2022 mae dysgwyr yn sefyll asesiadau wedi'u haddasu, a gofynnwyd i gyrff dyfarnu sicrhau safonau dyfarnu sydd fwy neu lai hanner ffordd rhwng canlyniadau 2019 a 2021. Byddwn ni'n monitro'r broses ddyfarnu yn ofalus er mwyn sicrhau canlyniadau teg i ddysgwyr. Bydd yr hyn byddwn ni'n ei ddysgu o'r flwyddyn hon yn ein helpu wrth i ni ystyried ein dull o ymdrin â safonau yn y flwyddyn academaidd nesaf ac o hynny ymlaen.

Cyhraeddiad: Drwy gydol y flwyddyn byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n darparu gwybodaeth glir i'n rhanddeiliaid am ein rôl a sut mae'r system yn gweithio. Byddwn ni'n parhau i ymgysylltu â nhw ac yn gwrando ac yn dysgu cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Diwygio: Eleni rydyn ni'n symud i gyfnod hollbwysig ein rhaglen waith 'Cymwys ar gyfer y dyfodol' i ddiwygio cymwysterau ar gyfer dysgwyr rhwng 14-16 oed. Byddwn ni'n parhau â'n dull o ddatblygu ar y cyd, gan gynnwys academyddion, arbenigwyr pwnc, ymarferwyr a dysgwyr wrth lunio cymwysterau newydd. Byddwn ni'n ymgysylltu'n eang ac yn gwrando ar adborth fel bod nodau'r cymhwyster, y cynnwys a'r dulliau asesu yn elwa o sicrhau bod pawb yn y system addysg yn cael cyfle i leisio'u barn.

Bydd ein gwaith yn ystyried anghenion pob dysgwr rhwng 14-16 oed, a bydd yn cynnwys cymwysterau lefel mynediad, lefel 1 a lefel 2 sydd eu hangen ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith. Mae cymwysterau yn arwydd pwysig o gyflawniad ac rydyn ni'n gweithio i sicrhau cynnig cwbl gynhwysol a chydlynol wrth i ni symud ymlaen ar y daith ddiwygio.

Ein huchelgais yw defnyddio'r cyfle i arloesi ac i foderneiddio asesiadau. Mae hyn yn cynnwys gwneud gwell defnydd o dechnoleg ac offer digidol i drawsnewid sut mae asesu'n digwydd. Byddwn ni'n gweithio'n agos gyda chyrff a chanolfannau dyfarnu – gan gydnabod bod angen i unrhyw newidiadau fod yn hylaw a'u bod yn cyd-fynd â newidiadau mewn addysgu a dysgu.

Mae rheoli newid yn parhau i fod yn hanfodol i ddiwygio llwyddiannus. Byddwn ni'n parhau i weithio gydag ysgolion, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith i esbonio newidiadau a darparu cymorth. Pan fyddwn ni'n comisiynu cyrff dyfarnu i ddatblygu cymwysterau newydd, byddwn ni'n gofyn iddyn nhw sicrhau bod darparwyr dysgu wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu cyflwyno.

Mae cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau sy'n seiliedig ar sgiliau yr un mor bwysig i ni â chymwysterau sy'n cefnogi dysgu academaidd. Byddwn ni'n cefnogi'r uchelgais ar gyfer cymwysterau galwedigaethol y cyfeirir atynt yn y rhaglen lywodraethu sydd wedi'i diweddarau. Byddwn ni'n defnyddio ein harbenigedd a'n data i adolygu tirwedd cymwysterau ôl-16 ac yn helpu i nodi cyfleoedd i ddefnyddio ein pwerau i gryfhau a sicrhau'r cynnig yng Nghymru. Byddwn ni'n parhau i gyflawni ein strategaeth cymwysterau galwedigaethol, gan

helpu dysgwyr i wneud cynnydd ac i ddatblygu sgiliau ar gyfer cyflogaeth, a thrwy hynny wella ffyniant cyffredinol a thwf economaidd.

Eleni, bydd ein strategaeth ar gymwysterau cyfrwng Cymraeg 'Dewis i Bawb' yn canolbwyntio ar gymwysterau ôl-16, a byddwn ni'n gweithio gyda chyrrff dyfarnu i sicrhau mwy o ddarpariaeth ddwyieithog.

Wrth gyflawni ein diwygiadau, byddwn ni'n monitro'r broses o gyflwyno ac o ddyfarnu'r cymwysterau newydd ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Technoleg Ddigidol a'r Amgylchedd Adeiledig yn fanwl. Byddwn ni'n cwblhau ein hadolygiad o'r sector Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwy, a byddwn ni'n cyhoeddi ein hadolygiad o Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid. Byddwn ni hefyd yn dechrau ein hadolygiad Busnes, Gweinyddiaeth a Manwerthu.

Llynedd fe wnaethon ni gomisiynu cymhwyster newydd 'Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru' – eleni byddwn ni'n ei ystyried i'w gymeradwyo. Bydd y cymhwyster newydd hwn yn disodli'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch (y cyfeirir ati'n aml fel Bagloriaeth Cymru) ac yn rhoi cyfle i ddysgwyr Lefel 3 ddangos eu sgiliau cyfannol wrth ymgymryd â phrosiectau sy'n adlewyrchu materion byd-eang cyfredol ac yn hyrwyddo dyfodol cynaliadwy.

Adolygu/Ymchwil: Yn sail i'n gwaith bydd rhaglen ymchwil lawn, a chasglu a dadansoddi data i helpu i sicrhau ein bod ni'n gwneud penderfyniadau gwybodus sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydyn ni'n edrych ymlaen at ddechrau ymchwil i asesu parhaus, gan gefnogi ein diwygiadau i gymwysterau.

Adnoddau: Eleni byddwn ni'n dod â'r hyn rydyn ni wedi'i ddysgu a'i gyflawni ers i ni gael ein sefydlu at ei gilydd ac yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer cymwysterau a'r system gymwysterau yn y dyfodol, ynghyd â'n cynllun 5 mlynedd. Bydd hyn yn disodli ein dogfennau strategaeth presennol ac yn gosod y cyfeiriad ar gyfer y pum mlynedd nesaf i ddod, gan ddangos ein ffocws ar anghenion Cymru, lles dysgwyr a'r cyfleoedd i foderneiddio asesu.

Yn y gwanwyn/haf, rydyn ni'n disgwyl symud i batrwm rheolaidd o weithio hybrid. Bydd hyn yn golygu newidiadau i sut mae ein gweithwyr yn gweithio, ein polisiau Adnoddau Dynol a chynllun ein swyddfa. Rydyn ni wedi ymrwmo i wneud hyn yn llwyddiant, gan adeiladu ar ein diwylliant cynhwysol, gan gadw manteision gweithio mwy hyblyg. Wrth wneud hynny, byddwn ni'n parhau i ganolbwyntio ar les gweithwyr, ein hamcanion cydraddoldeb ac amcanion deddf cenedlaethau'r dyfodol a'n heffaith amgylcheddol. Rydyn ni am barhau i wneud Cymwysterau Cymru yn lle gwych i weithio, lle mae gweithwyr yn gallu ac yn gwneud gwahaniaeth.



Philip Blaker
Prif Weithredwr, Cymwysterau Cymru

3. Cynllunio gweithredol 2022-23

Rydyn ni'n rheoli rhaglenni gwaith sy'n ymestyn dros fwy na blwyddyn ac mae'r cynllun hwn yn naturiol yn adeiladu ar waith a blaenorol ac ar gynlluniau ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Mae pum blaenoriaeth weithredol ar gyfer 2022-23:

1. Adolygu
2. Diwygio
3. Rheoleiddio
4. Adnoddau
5. Cyhraeddiad


Meysydd gwaith hanfodol yn y flwyddyn i ddod:

- gwaith diwygio cymwysterau 'Cymwys ar gyfer y dyfodol' ar gyfer dysgwyr rhwng 14-16 oed
- adolygu a diwygio cymwysterau ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn barhaus
- cynyddu'r ddarpariaeth ddwyieithog drwy ein strategaeth 'Dewis i Bawb'
- ein rhaglen ymchwil, gan gynnwys ymchwil i asesu parhaus ac archwilio'r cyfleoedd i foderneiddio asesu drwy ddefnyddio technoleg ddigidol yn well
- dyfarnu cymwysterau yn haf 2022 ar ôl dychwelyd i arholiadau, a phenderfynu ar y dull o ymdrin â safonau yn y dyfodol
- datblygu ein gweledigaeth a'n strategaeth hirdymor
- newid llwyddiannus i weithio hybrid yn bennaf

Rydyn ni'n cael ein hariannu'n bennaf gan Lywodraeth Cymru. Ein dyraniad cyllid refeniw craidd ar gyfer 2022-23 yw £8.067m, a'n cyllid cyfalaf craidd yw £250,000; rydyn ni hefyd yn cael £200,000 i ariannu'r cymhwyster 'Cymraeg i Oedolion', ac rydyn ni wedi cael £1.5m arall i dalu am y costau ychwanegol byddwn ni'n eu hysgwyyddo ar gyfer ein diwygiadau 'Cymwys ar gyfer y dyfodol'. Rydyn ni hefyd yn bwriadu cynhyrchu incwm o tua £41,000 drwy ddarparu gwasanaethau cymorth TG i ddau gorff arall a noddir gan Lywodraeth Cymru. Ar lefel gryno, mae ein cyllideb ar gyfer 2022-23 i'w gweld isod:

Mae'r diagram isod yn dangos ymhellach sut rydyn ni'n bwriadu gwario ein cyllideb o £10.058m:

Maes	Cyllideb Graidd 2022-23 £'000	Cyllideb Cymwys ar gyfer y dyfodol 2022-23 £'000	Cyfanswm y Gyllideb 2022-23 £'000
Cyflwg	5,339	1,200	6,539
Grantiau	600	0	600
Costau Rhaglenni	529	385	914
Costau Gweithredu	1,554	15	1,569
Darpariaeth Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer adlinio	236	0	236
	8,258	1,600	9,858
Grant Cymraeg i Oedolion	200	0	200
	8,458	1,600	10,058
Ariannwyd gan			
Grant Craidd LIC - reffeniw			8,067
Grant Craidd LIC - cyfalaf			250
Cymraeg i Oedolion			200
Defnydd o Gronfeydd Wrth Gefn			0
Cyllid Cymwys ar gyfer y dyfodol LIC			1,500
Defnyddio incwm			41
Cyfanswm Cyllid			10,058



Yn yr adrannau isod rydyn ni'n amlinellu ein cynlluniau'n fanylach. Wrth gyflawni'r gwaith hwn byddwn ni'n gwneud cynnydd pellach yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol. Lle rydyn ni'n cymryd camau penodol eleni, rydyn ni wedi'u cynnwys ym mhob adran:

3.1. Blaenoriaeth weithredol 1: Adolygu

Mae ein gwaith yma yn ymwneud ag adolygu a gwerthuso agweddau ar y system gymwysterau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion dysgwyr ac yn cryfhau hyder y cyhoedd mewn cymwysterau. Rydyn ni'n gwneud gwaith ymchwil, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am bolisiau ehangach yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU.

Yn 2022-23 byddwn ni'n:

Datblygu ac ymgynghori ar gynigion ar gyfer ail-lunio'r 'cynnig ehangach' o gymwysterau i ddysgwyr rhwng 14-16 oed

Bydd hyn yn cwmpasu cymwysterau i'w cynnig i ddysgwyr cyn-16 yn ogystal â chymwysterau TGAU, er mwyn sicrhau ein bod ni'n adeiladu cynnig cydlynol a chynhwysol i ddiwallu anghenion pob dysgwr.

Adolygu a chryfhau'r cynnig cymhwyster ôl-16

Mae ein dull strategol o gryfhau'r cynnig cymhwyster galwedigaethol ôl-16 yn cynnwys:

- parhau â'n rhaglen o adolygiadau sector
- cyhoeddi ein hadolygiad Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid
- dechrau ein hadolygiad Busnes, Gweinyddiaeth a Manwerthu

Wrth wneud hynny, byddwn ni'n gweithio'n agos gyda chyrff dyfarnu a'r llywodraeth i reoli risgiau posibl i ddysgwyr yng Nghymru o ganlyniad i newidiadau polisi yn Lloegr.

Datblygu dull strategol o foderneiddio asesu

Byddwn ni'n sefydlu tîm bach sy'n canolbwyntio ar ystyried cyfleoedd, manteision, heriau a risgiau defnyddio technoleg ddigidol mewn cymwysterau ac asesu. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu strategaeth tymor hwy i foderneiddio asesu ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.

Cynnal ymchwil i lywio meddwl ac adolygu strategol

Bydd ymchwil sylweddol eleni yn cynnwys:

- siarad â rhanddeiliaid mewn addysg bellach i ddeall sut maen nhw'n defnyddio graddau i'n helpu i benderfynu ar ddyfodol graddfa graddau TGAU
- cwblhau cylch diweddaraf ein harolwg ar hyder y cyhoedd gyda rhanddeiliaid allweddol
- ymchwilio i gysyniadau asesu parhaus a gwahanol ddulliau o ymdrin â safonau, ac archwilio cyfleoedd i lywio ein gwaith ar foderneiddio asesu

Byddwn ni'n parhau i adolygu ymchwil ehangach i nodi datblygiadau a syniadau, gan gefnogi timau ar draws y sefydliad i wneud y defnydd gorau o ymchwil, data a dadansoddi, ynghyd â rhannu ein canfyddiadau a'n hystadegau yn allanol.

Byddwn ni hefyd yn cynnal yr Adolygiadau arfaethedig hyn:

- **Adolygiad o'r Sector Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyio** - llynedd fe wnaethon ni gasglu'r rhan fwyaf o'n tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad hwn. Eleni, byddwn ni'n cwblhau ein rhaglen ymgysylltu â dysgwyr ac yn datblygu ac yn profi ein cynigion i fynd i'r afael â materion a nodwyd yn yr adolygiad. Rydyn ni'n bwriadu cyhoeddi'r adroddiad ym mis Ionawr 2023.
- **Cyfres o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru** - yn ogystal â goruchwyllo newidiadau i'r gyfres bresennol o gymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, byddwn ni hefyd yn dechrau adolygiad mwy sylweddol yng ngwanwyn 2022 i lywio diwygiadau yn y dyfodol. Eleni, byddwn ni'n dechrau'r adolygiad technegol a byddwn ni'n dechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Cefnogi'r gwaith o gyflawni ein Hamcan Cydraddoldeb Strategol

'Ymgysylltu â'r system gymwysterau a'i llywio - rydyn ni'n cyfathrebu, yn ymgysylltu, yn ymgynghori ac yn cynnal ymchwil gyda grwpiau amrywiol, gan elwa ar ystod eang o safbwyntiau.'

Er mwyn gallu dadansoddi cydraddoldebau'n barhaus, byddwn ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod data'n cael ei gasglu'n well, gan ein galluogi i adeiladu ar ein dadansoddiad o ganlyniadau a llywio'r system yn well. Byddwn ni hefyd yn cwblhau adolygiad o'n rhestr wirio moeseg ar gyfer ymchwil.

3.2. Blaenoriaeth weithredol 2: Diwygio

Unwaith byddwn ni wedi cwblhau'r gwaith o adolygu a gwerthuso ystod o gymwysterau, neu agwedd ar y system, gall hyn arwain at newidiadau i ystod, cynnwys neu ddull asesu'r cymwysterau a gynigir yng Nghymru.

Yn 2022-23 byddwn ni'n:

Datblygu cymwysterau TGAU newydd ar y cyd fel rhan o'n prosiect 'Cymwys ar gyfer y dyfodol'

Llynedd, fe wnaethon ni ymgynghori ar y pynciau lle bydd cenhedlaeth newydd o gymwysterau TGAU a chymwysterau cysylltiedig yn cael eu creu i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru a chadarnhau'r pynciau hynny. Sefydlon ni strwythur o fwy na 30 o grwpiau rhanddeiliaid i weithio gyda ni i ddatblygu gwaith llunio'r cymwysterau newydd hyn ar y cyd. A lansion ni ymarfer ymgysylltu mawr gyda dysgwyr i roi llais cryf iddyn nhw ar sut fydd cymwysterau'n edrych yn y dyfodol.

Eleni, gan ddefnyddio ein dull o ddatblygu ar y cyd, byddwn ni'n cydweithio'n helaeth ag eraill i ddatblygu cynigion drafft ar gyfer nodau, cynnwys ac asesiad cymwysterau TGAU newydd. Yn nhymor yr hydref byddwn ni'n cyhoeddi'r cynigion hyn ar gyfer safbwyntiau a sylwadau ehangach. Bydd grwpiau rhanddeiliaid wedyn yn defnyddio'r adborth hwn i ailweithio a mireinio cynigion ymhellach fel ein bod yn gallu cytuno ar y gofynion cynllunio terfynol ar gyfer y cymwysterau newydd yn 2023.

Ochr yn ochr â'r gwaith cydweithredol hwn byddwn ni'n datblygu ac yn rhannu cynllun manwl ar gyfer datblygu, cymeradwyo a chyflwyno'r cymwysterau newydd i helpu cefnogi ysgolion i wireddu manteision y Cwricwlwm i Gymru i ddysgwyr.

Rheoli diwygiadau mewn sawl maes galwedigaethol neu faes sy'n seiliedig ar sgiliau gan gynnwys:

- **Diwygio Bagloriaeth Sgiliau Uwch Cymru** – byddwn ni'n monitro dangosyddion perfformiad cytundebol, yn newid dogfennau rheoleiddio, yn cymhwyso prosesau cymeradwyo ac yn sicrhau bod newid yn cael ei reoli'n effeithiol.
- **Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru** – byddwn ni'n cymeradwyo'r diwygiadau i 'Cymhwyso Rhif, Cyfathrebu a Chyflogadwyedd' yn barod ar gyfer mis Medi 2022 ac yn ymgysylltu â chyrrff dyfarnu i nodi newidiadau i'r cymwysterau 'Llythrennedd Digidol' i'w cyflwyno ym mis Medi 2023.
- **Cymwysterau Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu** - byddwn ni'n parhau i gefnogi'r system addysg a hyfforddiant drwy gyflwyno'r cymwysterau newydd hyn yn ddiraffferth i ddysgwyr mewn ysgolion, colegau ac ar brentisiaethau.
- **Cymwysterau Technoleg Ddigidol newydd** – cefnogi athrawon mewn ysgolion a cholegau gyda rhaglen o reoli newid i helpu i gyflwyno'r cymhwyster TGAU newydd

yn effeithiol (i'w ddyfarnu gyntaf yn haf 2023) a chymwysterau TAG a Safon Uwch Technoleg Ddigidol (i'w cyflwyno i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2022).

- **Gweithredu camau gweithredu o'r adolygiad sector Peirianeg, Gweithgynhyrchu Uwch ac Ynni** – parhau i ymgysylltu â chyrrff dyfarnu i oruchwylio hyn.

Cynyddu argaeledd cymwysterau cyfrwng Cymraeg drwy barhau i gyflawni ein strategaeth 'Dewis i Bawb' a rheoli ein rhaglen ariannu grantiau

Eleni byddwn ni'n:

- canolbwyntio ar gymwysterau ôl-16 ac yn nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer sicrhau darpariaeth ddwyieithog
- gweithio gyda chyrrff dyfarnu i gryfhau eu gwaith o gofnodi dewisiadau iaith dysgwyr
- monitro ac adrodd ar gynnydd yn erbyn y dangosyddion allweddol a nodir yn ein strategaeth
- parhau i ddyfarnu grantiau fel bod modd asesu mwy o gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i gefnogi'r cymhwyster Cymraeg i Oedolion
- adolygu ein dull cyffredinol o ymdrin â grantiau a datblygu strategaeth tymor hwy i sicrhau ein bod ni'n gwneud y defnydd gorau o'n cyllid i hybu darpariaeth ddwyieithog

Cefnogi ein Hamcan Cydraddoldeb Strategol

'Mae cymwysterau rheoleiddiedig yn cael eu cynllunio a'u hasesu mewn ffordd sy'n deg i bob dysgwr.'

Byddwn ni'n sefydlu fforwm rhanddeiliaid pwrpasol sy'n canolbwyntio ar faterion cydraddoldeb er mwyn helpu i lywio ein gweithgareddau adolygu a diwygio ac archwilio ffyrdd arloesol o wella hygyrchedd cymwysterau ac asesiadau, a chymryd rhan yn ein gwaith.

3.3. Blaenoriaeth weithredol 3: Rheoleiddio

Rydyn ni'n rheoleiddio cymwysterau sy'n cael eu datblygu a'u darparu gan y cyrff dyfarnu rydyn ni'n eu cydnabod. Pan gaiff ei gydnabod, rhaid i gorff dyfarnu gydymffurfio â'r rheolau rydyn ni'n eu gosod. Rydyn ni'n monitro cydymffurfiaeth yn erbyn ein Hamodau Cydnabod Safonol a, lle bo'n briodol, rydyn ni'n defnyddio ein pwerau gorfodi i sicrhau bod y system yn diwallu anghenion dysgwyr.

Yn 2022-23 byddwn ni'n:

Cyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio craidd gan gynnwys:

- **Rheoleiddio cyrff dyfarnu** – byddwn ni'n parhau â'n gweithgareddau cydnabod, monitro a chydymffurfio, gan ddatblygu canllawiau pellach lle bo angen ac yn cadw llygad ar hyfywedd cyrff dyfarnu yn dilyn effaith y pandemig ar reffeniw.
- **Monitro cymwysterau** – gan gynnwys cyflwyno a dyfarnu cyfres arholiadau haf 2022 a gaeaf 2022-23, cyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, a'r cymwysterau galwedigaethol cymeradwy newydd ym maes lechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu.
- **Dynodi cymwysterau** - fel rhai sy'n gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer dysgwyr o dan 19 oed. Byddwn ni'n parhau i gyflawni ein rôl ar Grwpiau Llywio Partneriaid Cyflawni Prentisiaethau Llywodraeth Cymru.
- **Adolygu a diweddarau polisiau a dogfennau rheoleiddio i sicrhau eu bod yn gyfredol** – cynnal sawl adolygiad polisi a pharhau i godi ymwybyddiaeth o'n fframwaith rheoleiddio, ein polisiau a'n dulliau gweithredu gyda rhanddeiliaid allanol.

Cefnogi diwygiadau i gymwysterau 14-16 gyda pholisiau a dulliau rheoleiddio

Byddwn ni'n adolygu ac yn datblygu atebion polisi i ategu a chefnogi'r cynnig cymwysterau 14-16 i ddiwallu anghenion y dyfodol. Bydd hyn yn gynnwys:

- datblygu atebion polisi rheoleiddio i sicrhau bod cymwysterau ar gael i gefnogi'r cwricwlwm newydd
- cynnal asesiadau effaith a dadansoddi cost/budd
- cynllunio ar gyfer y prosesau cymeradwyo a dynodi i gefnogi'r diwygiadau i gymwysterau 14-16

Parhau i gydweithio â'r system gymwysterau ehangach gan gynnwys:

- **Gweithio gyda rheoleiddwyr eraill a phartneriaid ehangach** – lleihau'r baich rheoleiddio ar y rhai rydyn ni'n eu rheoleiddio a rhannu arfer gorau er mwyn sicrhau gwerth am arian a sicrhau bod cymwysterau a gymerir yng Nghymru yn parhau i gael eu parchu a'u bod yn gludadwy.
- **Rheoli QiW** - byddwn ni'n parhau i gynnal a gwella'n barhaus y gronfa ddata gymwysterau hon a gaiff ei defnyddio gennym ni a'r system addysg ehangach yng Nghymru.

- **Casglu data a chynhyrchu ystadegau** – byddwn ni'n rheoli ein gwaith o gasglu data gan Lywodraeth Cymru a chyrrff dyfarnu i alluogi gweithgarwch monitro, adolygu a gwerthuso rheoleiddiol – gan gynnwys ar gyfer dyfarnu graddau yn haf 2022 – a chynhyrchu ystadegau swyddogol rheolaidd.

Pennu'r dull o asesu a rheoleiddio cymwysterau yn 2022/2023

Byddwn ni'n sefydlu gofynion rheoliadol ac yn goruchwyllo'r broses o ddyfarnu cymwysterau cymeradwy yng nghyffwrdd arholiadau haf 2022, Tachwedd 2022 ac Ionawr 2023 gan gyrrff dyfarnu. Mae hyn yn cynnwys:

- gweithio gyda rheoleiddwyr eraill i sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion mewn mannau eraill
- gweithredu fframwaith rheoleiddio a chanllawiau i gefnogi'r trefniadau a chynorthwyo cydymffurfiaeth y corff dyfarnu
- cynhyrchu cynnwys llawn gwybodaeth fel bod dysgwyr a'u teuluoedd, ysgolion a cholegau a'r cyhoedd yn ehangach yn deall ein dulliau gweithredu
- cynnal cynlluniau wrth gefn rhag ofn bydd tarfu ar y gyffwrdd arholiadau

Pennu'r dull o asesu a rheoleiddio cymwysterau yn y blynyddoedd dilynol

Byddwn ni'n archwilio effaith trefniadau dyfarnu haf 2022 i lywio ein hystyriaethau ar gyfer dyfarniadau haf 2023 a blynyddoedd i ddod. Byddwn ni'n archwilio safonau cymwysterau mewn perthynas â deilliannau a chyrrhaeddiad yn ystod pandemig Covid-19 (haf 2020 a haf 2021) i ddeall effaith a goblygiadau dibynnu ar raddau a ddyfernir gan athrawon yn unig. Byddwn ni'n ategu hyn gydag ymchwil i ddulliau o ailosod safonau graddio a dulliau amgen o ymdrin â safonau.

Cefnogi ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol

'Mae cymwysterau rheoleiddiedig yn cael eu darparu a'u dyfarnu mewn ffordd sy'n deg i bob dysgwr.'

Byddwn ni'n cyhoeddi trosolwg o ddyfarniadau haf 2022 i gynnwys manylion am sut y gwnaethon ni reoli effaith pandemig Covid-19 ar ddyfarnu cymwysterau.

3.4. Blaenoriaeth weithredol 4: Adnoddau – gallu corfforaethol

Rydyn ni'n gwybod bod meddu ar alluoedd corfforaethol cryf ac effeithiol yn cefnogi ein gallu i gyflawni ac yn gwella ein henw da gyda rhanddeiliaid. Rydyn ni'n ymdrechu i wneud penderfyniadau cytbwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydyn ni'n gwrando ar randdeiliaid ac yn darparu gwybodaeth glir. Ein nod yw parhau i ennill ymddiriedaeth drwy reoli ein hadnoddau ac arferion corfforaethol sy'n cydymffurfio yn gadarn ac yn effeithiol. Byddwn ni'n parhau i gefnogi lles gweithwyr wrth i ni ddatblygu ein ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

Yn 2022-23 byddwn ni'n:

Adolygu ac adnewyddu ein dull strategol cyffredinol

Byddwn ni'n datblygu ein gweledigaeth ar gyfer cymwysterau a'r system gymwysterau, yn datblygu cynllun strategol tymor canolig ar gyfer sut gallwn ni weithio tuag at hyn, ac yn cyfathrebu hyn yn eang. Byddwn ni'n adolygu ein strategaethau pobl a gallu corfforaethol i'w diweddarau yn unol â'n gweledigaeth.

Darparu Gwasanaethau Corfforaethol sy'n cefnogi ac yn herio'r sefydliad i fod yn effeithlon, yn effeithiol ac yn cydymffurfio, ac sy'n bodloni ein cyfrifoldebau corfforaethol gan gynnwys:

- cyhoeddi adroddiadau corfforaethol mewn pryd ac i safon uchel
- cyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- cyflawni camau gweithredu ein Cynllun Cymraeg
- cefnogi lleihau allyriadau carbon drwy gwblhau ein datganiad blynyddol o ddata ôl troed carbon a pharhau i fonitro ein heffaith ar garbon a nodi'r camau y gallen ni eu cymryd i gefnogi lleihau allyriadau

Sefydlu ffyrdd newydd o weithio i gefnogi ymgysylltu â staff

Wrth i effaith Covid-19 leihau byddwn ni'n datblygu ffyrdd newydd o weithio i wneud y mwyaf o effeithiolrwydd, lles ac ymgysylltiad staff. Byddwn ni'n ymgorffori ein hegwyddorion arweiniol, sef 'Cydweithio, Creadigrwydd, Caredigrwydd a Chymuned' i lywio pam a phryd y byddwn ni'n dod at ein gilydd i weithio yn y swyddfa. Bydd gwaith i sicrhau bod gweithio hybrid yn effeithiol ac yn dod yn fodel disgwylidig yn cynnwys:

- rhoi hyfforddiant i reolwyr a staff
- datblygu ein Hwch Grŵp Arweinyddiaeth
- gwella amgylchedd ein swyddfa i gefnogi anghenion staff newydd
- addasu ein polisïau Adnoddau Dynol, cyfleusterau a TG
- mentrau i gynnal ymgysylltiad staff a hyrwyddo a chefnogi lles staff, gan weithio gyda'n grŵp llesiant QWEST
- parhau â'n gweithgareddau i gefnogi cyfrifoldeb cymdeithasol cymunedol

Wrth wneud y newidiadau hyn byddwn ni'n mynd i'r afael â chymau gweithredu a nodwyd o'n harolwg staff ac yn gweithio mewn partneriaeth â'n Hundeb Llafur cydnabyddedig.

Cydweithio â'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector cyhoeddus, i gefnogi'r system gymwysterau ac i ddefnyddio cyfleoedd i sicrhau mwy o effeithlonrwydd neu effeithiolrwydd. Eleni, byddwn ni'n gweithio gyda chyrff eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru i barhau i ddarparu'r rhaglen dysgu a datblygu ar gyfer rheolwyr ac arweinwyr, a byddwn ni'n parhau i ddarparu cymorth TG i'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Cefnogi datblygiad y Bwrdd

Byddwn ni'n parhau i ddarparu rhaglen gynefino effeithiol ar gyfer ein haelodau Bwrdd newydd. Ein nod yw gwella sut rydyn ni'n gweithredu'n barhaus a byddwn ni'n cwblhau adolygiad ffurfiol o effeithiolrwydd y Bwrdd ac yn dechrau gweithredu'r canfyddiadau.

Gweithredu'r System Gyllid ac Adnoddau Dynol newydd

Byddwn ni'n parhau i weithredu modiwlau Adnoddau Dynol ychwanegol i alluogi gweithio mwy effeithiol ac effeithlon ac i gyflawni recriwtio dwyieithog. Byddwn ni'n parhau i weithredu system gyllid newydd.

Cefnogi ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol

'Mae ein gweithlu a'n Bwrdd yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth yng Nghymru yr ydyn ni'n rheoleiddio ar eu cyfer ac yn gweithio yn eu plith.'

Byddwn ni'n cynnig lleoliad(au) gwaith tymor byr a hysbysebiri yn y gymuned leol i ddarparu profiad gwaith ac i ddangos y cyfleoedd gyrfa sydd ar gael yn y sector cyhoeddus. Byddwn ni'n cefnogi'r prosiect Llwybr i'r Bwrdd sy'n cael ei redeg gan grŵp o Ymddiriedolaethau Tai i annog mwy o bobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig i fod yn aelodau Bwrdd. Byddwn ni'n darparu mentoriaid Bwrdd ac yn caniatáu arsylwi cyfarfodydd.

'Rydym ni'n parhau i adeiladu diwylliant lle mae pobl yn teimlo bod y sefydliad yn gweld eu gwerth fel unigolion, yn gwerthfawrogi eu gwahaniaethau ac yn gwneud defnydd da o'r ystod o brofiadau a mewnwediadau sydd ar gael.'

Byddwn ni'n cael adolygiad o'n gweithle a'n diwylliant i archwilio sut gallwn ni gael gwared ar rwystrau anfwriadol ac yn rhoi cynllun gweithredu ar waith i sbarduno newid. Byddwn ni'n defnyddio hyn i ddatblygu a lansio hyfforddiant ar gyfer gweithwyr ac aelodau'r Bwrdd. Byddwn ni hefyd yn cwblhau adolygiad hygyrchedd o'n newidiadau arfaethedig i gynllun y swyddfa i gefnogi gweithio hybrid

3.5. Blaenoriaeth weithredol 5: Cyrhaeddiad – cysylltu, ymgysylltu a chyfathrebu'n effeithiol â'n cynulleidfaoedd

Mae hybu a chynnal hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a system gymwysterau Cymru yn ganolog i'n gwaith ni. Rydyn ni'n sicrhau hyn drwy wella sut rydyn ni'n cyfathrebu ac yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd allweddol ledled y wlad yn barhaus. Mae gennym amrywiaeth o sianeli a thechnegau ac rydyn ni'n gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector addysg a chymdeithas sifil i gyfleu ein dyletswyddau rheoleiddio a diwygio.

Yn 2022-23 byddwn ni'n:

Meithrin hyder a dealltwriaeth y cyhoedd o Cymwysterau Cymru a'r system gymwysterau – drwy gynllunio a darparu gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol sy'n cynnal ac yn meithrin hyder a dealltwriaeth y cyhoedd o rôl a phwrpas Cymwysterau Cymru.

Canolbwyntio ar welliant parhaus i gyflawni gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol – bodloni blaenoriaethau sefydliadol, amcanion allweddol a dangosyddion perfformiad.

Cyflwyno'r cynllun ymgysylltu strategol i gynnal a datblygu perthnasoedd â rhanddeiliaid presennol a newydd – byddwn ni'n canolbwyntio ein gweithgarwch ymgysylltu ar gynnal perthnasoedd presennol a grwpiau rhanddeiliaid ac yn nodi ac yn tyfu cyfleoedd partneriaeth newydd i ehangu ein cyrhaeddiad a chynyddu dealltwriaeth o'n blaenoriaethau gwaith.

Cyflwyno'r strategaeth sianeli digidol i gyrraedd ein cynulleidfaoedd allweddol yn effeithiol – byddwn ni'n adolygu'r cynnwys a gynigir ar draws ein holl sianeli ac yn datblygu strategaeth newydd i wella ein hymgysylltiad digidol. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau ein bod ni'n targedu micro-gynulleidfaoedd gyda chynnwys a negeseuon perthnasol, ochr yn ochr â datblygu gwefan newydd Cymwysterau Cymru sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa.

Cyfathrebu ac ymgysylltu ar ddychwelyd i arholiadau ac asesu ar ôl y pandemig – hyrwyddo dealltwriaeth o benderfyniadau a wnawn sy'n gysylltiedig ag effaith barhaus Covid-19 ar arholiadau ac asesu.

Cyfathrebu ac ymgysylltu ar ein blaenoriaethau 'Adolygu' a 'Diwygio' – datblygu a chyflawni cynlluniau a thargedau perfformiad penodol.

Cefnogi ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol

'Ymgysylltu â'r system gymwysterau a'i llywio.'

Byddwn ni'n adnewyddu cynnwys ein gwefan a'i ddefnyddioldeb i gefnogi hygyrchedd i bawb.